Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

# Ffurflen Gais
# Atodlen 11 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002

Cais i benderfynu atebolrwydd i dalu tâl gweinyddol amrywiol a pha mor rhesymol yw hynny neu i amrywio tâl gweinyddol sefydlog

**Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon.**

**Ysgrifennwch yn glir mewn inc DU a thiciwch y blychau sy'n briodol.**

**Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.**

Mae'r Ffurflen Gais hon yn ymwneud â Thaliadau Gweinyddol.

Tâl gweinyddol yw swm y mae tenant annedd yn ei dalu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:
(a) mewn perthynas â chael cymeradwyaeth o dan y les neu gais am gymeradwyaeth o'r fath;
(b) mewn perthynas â rhoi gwybodaeth neu ddogfennau gan y landlord neu barti arall i'r les, neu ar eu rhan;
(c) mewn perthynas â methiant i dalu erbyn y dyddiad dyledus i'r landlord neu barti arall i'r les;
(ch)mewn perthynas ag achos o dorri (neu achos honedig o dorri) cyfamod neu amod yn y les.

Mae taliadau gweinyddol naill ai'n sefydlog neu'n amrywiol.

Tâl sefydlog: swm sydd naill ai wedi'i nodi yn y les neu sydd wedi'i gyfrifo yn unol â fformiwla sydd wedi'i nodi yn y les.

Tâl amrywiol: unrhyw dâl nad yw wedi'i nodi na'i gyfrifo.

**Dim ond taliadau gweinyddol sefydlog y gall y Tribiwnlys eu hamrywio.**

Gellir gwneud cais i amrywio tâl o'r fath am y rhesymau canlynol:
(a) bod unrhyw dâl sydd wedi'i nodi yn y les yn afresymol neu
(b) bod unrhyw fformiwla sydd wedi'i nodi yn y les i gyfrifo'r tâl yn afresymol.

Hon yw'r ffurflen gywir i'w defnyddio os hoffech wneud unrhyw rai o'r ceisiadau canlynol:

- amrywio tâl gweinyddol sefydlog
- penderfynu a oes tâl gweinyddol amrywiol i'w dalu ac os felly,
- y swm rhesymol i'w dalu.

Os bydd y Tribiwnlys yn dyfarnu bod tâl amrywiol i'w dalu, gall hefyd benderfynu'r canlynol:

- y person a ddylai dalu
- y person a ddylai gael ei dalu
- y swm sydd i'w dalu (sy'n gyfyngedig i'r swm sy'n rhesymol)
- y dyddiad talu neu erbyn pryd y dylid talu
- sut y dylid talu

Dogfennau

Mae'n rhaid i chi anfon y dogfennau canlynol ("dogfennau gofynnol") gyda'r cais hwn:
- copi o'r Les
- copi o'r cais/ceisiadau am y taliadau gweinyddol gan gynnwys y crynodebau o Hawliau a Rhwymedigaethau a ddaeth gyda'r cais/ceisiadau (os yn berthnasol)
- yn achos cais i amrywio tâl gweinyddol sefydlog, drafft o'r amrywiad a gynigir

Os na fyddwch yn anfon unrhyw rai o'r dogfennau gofynnol, efallai na fydd y cais hwn yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Os a phryd y bydd angen rhagor o ddogfennau, gwybodaeth neu dystiolaeth, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

Ffi Gwneud Cais

Oni bai bod hawl gennych i gael hepgoriad neu ostyngiad, rhaid i chi anfon y ffi gwneud cais gyda'r cais a'r dogfennau gofynnol.

Bydd swm y ffi gwneud cais yn dibynnu ar gyfanswm y taliadau gweinyddol y mae anghydfod yn eu cylch, fel a ganlyn:

| **Swm y Tâl Gweinyddol y mae anghydfod yn ei gylch** | **Ffi Gwneud Cais** |
|---|---|
| Llai na £500 | £50 |
| Mwy na £500 ond llai na £1,000 | £70 |
| Mwy na £1,000 ond llai na £5,000 | £100 |
| Mwy na £5,000 ond llai na £15,000 | £200 |
| Mwy na £15,000 | £350 |

Rhaid talu'r ffi â siec wedi ei chroesi neu archeb bost sy'n daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru".

Peidiwch ag anfon arian parod. Ni fyddwn yn derbyn taliadau arian parod.

**Cofiwch:**

- Os na fyddwch yn anfon y ffi gywir yn daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu os byddwch yn anfon arian parod, bydd y cais a'r arian parod yn cael eu dychwelyd atoch ac ni dderbynnir cyfrifoldeb am hynny.
- Mae Ffi Gwrandawiad o £150 i'w thalu hefyd pan fydd Gwrandawiad wedi'i drefnu. Os na fyddwch yn talu'r ffi erbyn y dyddiad dyledus, ni fydd y cais yn cael Gwrandawiad a gall gael ei wrthod neu gellir ystyried eich bod wedi ei dynnu'n ôl.

Hepgor Ffioedd

Os bydd unrhyw Ymgeisydd/Ymgeiswyr neu bartner(iaid) unrhyw Ymgeisydd/Ymgeiswyr yn cael budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, gall y Ffi Gwneud Cais gael ei hepgor neu ei gostwng.

Er mwyn hepgor y Ffi Gwneud Cais neu ei gostwng, rhaid i'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr sy'n cael y budd-daliadau hyn, neu y mae eu partner(iaid) yn cael y budd-daliadau hyn, gwblhau ffurflen cais am

hepgoriad sydd ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o'r ffurflen hon.

Ar ôl ei chwblhau, rhaid anfon y ffurflen cais am hepgoriad gyda'r cais ynghyd ag unrhyw ffi is sydd i'w thalu.  Os na fyddwch yn gwneud hynny, byddwn yn anfon y cais nôl atoch ac ni dderbynnir cyfrifoldeb am hynny.

**Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau ynghyd â'r ffi gywir neu'r ffurflen cais am hepgoriad a'r dogfennau gofynnol i:**

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl**
**Llawr Cyntaf, Adain y Gorllewin**
**Tŷ Southgate**
**Wood Street**
**Caerdydd**
**CF10 1EW**

<u>Nodyn i Ymgeiswyr</u>

Dylai ymgeiswyr wybod y gall unrhyw wybodaeth y byddant yn ei rhoi i'r Tribiwnlys gael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad.  Mae holl benderfyniadau'r Tribiwnlys ar gael i'r cyhoedd.

Ni fydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn derbyn ceisiadau drwy Ffacs nac E-bost.

<u>Dewis iaith</u>

Mae’r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae’r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r tribiwnlys yn Gymraeg neu’n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

## 1. MANYLION YR YMGEISYDD/YMGEISWYR (Os oes mwy nag un ymgeisydd, dylech ddefnyddio dalen ar wahân)

Enw: ____________________

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): ____________________

____________________

____________________

____________________

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (*os yw'n wahanol*): ____________________

____________________

____________________

____________________

Ffôn: *Dydd:* __________ *Min nos:* __________ *Symudol:* __________

Cyfeiriad e-bost: ____________________

Rôl (*e.e. Perchennog*): ____________________

Manylion y cynrychiolydd: ____________________

____________________

*Os rhoddwyd manylion cynrychiolydd, bydd pob llythyr a chyswllt yn cael eu cyfeirio ato hyd nes bod y Tribiwnlys yn cael gwybod nad yw'n gweithredu ar ran yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr bellach.*

## 2. CYFEIRIAD YR EIDDO (gan gynnwys cod post)

____________________

____________________

____________________

____________________

## 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawiad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

## 4. MANYLION YR YMATEBYDD/YMATEBWYR

Enw: ______________________________

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (*os yw'n wahanol*): ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

Ffôn: *Dydd:* ______________ *Min nos:* ______________ *Symudol:* ______________

Cyfeiriad e-bost: ______________________________

Manylion y Cynrychiolydd: ______________________________

______________________________

## 5. CYFEIRIAD Y LANDLORD (os nad yw wedi'i roi uchod)

Enw: ______________________________

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (*os yw'n wahanol*): ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

Ffôn: *Dydd:* ______________ *Min nos:* ______________ *Symudol:* ______________

Cyfeiriad e-bost: ______________________________

Manylion y cynrychiolydd: ______________________________

______________________________

## 6. MANYLION Y CAIS

**Ticiwch un o'r canlynol a llenwch yr adran sy'n berthnasol i'ch cais.**

Cais i amrywio tâl gweinyddol sefydlog ☐

**Nodwch y canlynol:**

**Y cymal yr hoffech ei amrywio:**

**Y rheswm dros amrywio:**

Cais i benderfynu atebolrwydd i dalu tâl gweinyddol amrywiol a/neu pa mor resymol yw hynny ☐

**Nodwch y canlynol:**

**Y cymal sy'n berthnasol i bob tâl gweinyddol sy'n cael ei godi:**

**Manylion y tâl/taliadau:**

**Y rheswm dros y cais:**

## 7. CEISIADAU ERAILL

A ydych chi'n gwybod am unrhyw achosion eraill sy'n cynnwys naill ai:

(a) yr un materion neu faterion tebyg am dâl gweinyddol i'r rhai sydd yn y cais hwn; neu

(b) yr un landlord neu denant neu eiddo â'r cais hwn?

Os felly, rhowch fanylion

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 8. CYFYNGU COSTAU

Os ydych yn denant, a hoffech chi wneud cais o dan adran 20C

HOFFWN ☐ NA HOFFWN ☐

______________________________________________

Os felly, pam?

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

Cofiwch: mae rhai lesoedd yn caniatáu i landlord gynnwys costau a gafodd eu gwario mewn cysylltiad ag achos cyn Tribiwnlys fel rhan o Dâl Gwasanaeth. Mae adran 20C o Ddeddf Landlord a Thenant 1985 yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys, ar ôl cael cais gan y tenant, wneud gorchymyn yn datgan na ddylai costau o'r fath gael eu trin fel costau perthnasol i'w cynnwys wrth benderfynu ar swm unrhyw dâl gwasanaeth sydd i'w dalu gan y tenant neu unrhyw un arall a nodir yn y cais. Os ydych yn denant, dylech nodi yma a hoffech i'r Tribiwnlys ystyried gwneud Gorchymyn o'r fath.

## 9. A ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl y gallwn ddelio â'ch cais ar sail sylwadau ysgrifenedig yn unig ('penderfyniad papur') ond dim ond o dan yr amodau canlynol:

- mae'r Tribiwnlys yn credu bod hynny'n briodol
- mae pob parti yn cytuno yn ysgrifenedig

Hyd yn oed os byddwch yn cytuno i benderfyniad papur

- efallai y bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod angen cynnal gwrandawiad llafar
- gallwch chi neu barti arall ofyn am Wrandawiad llafar o hyd ar unrhyw adeg cyn i'r penderfynuad gael ei wneud

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n cytuno y gall penderfyniad gael ei wneud ar y cais hwn heb Wrandawiad llafar | YDW ☐ | NAC YDW ☐ |

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon i gyd gan dybio y bydd gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal.

## 10. BRYS Y CAIS

Mae angen i ni benderfynu a oes angen delio â'ch achos yn gyflym. Rhowch wybod i ni os oes brys arbennig i gael penderfyniad yn yr achos hwn ac os felly, pam?

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 11. ARGAELEDD

Os oes unrhyw ddiwrnodau neu ddyddiadau y dylem eu hosgoi dros y tri mis nesaf, a fyddech cystal â'u rhestru yma.

Dyddiadau pan **NA** fyddwch ar gael:

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 12. GOFYNION LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu rywun a fydd yn dod gyda chi (e.e. mynediad ar gyfer cadair olwyn, angen cyfieithydd ar y pryd). Bydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud trefniadau os bydd yn gwybod am eich anghenion.

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 13. DATGANIAD O WIRIONEDD

**Credaf fod y ffeithiau yn y cais hwn yn wir.**

Llofnod: ______________________________________________

Enw (PRIFLYTHRENNAU): ______________________________________________

Dyddiad: ______________________________________________

<u>RHESTR WIRIO</u>

Gwnewch yn siŵr:

- eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon i gyd
- eich bod wedi cynnwys y dogfennau gofynnol
- eich bod wedi cynnwys y ffi gywir yn daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a/neu unrhyw ffurflen cais am hepgoriad.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os na fyddwch wedi gwneud hynny.

**Cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r drefn y bydd y Tribiwnlys yn ei dilyn:**

**Ffôn:** **0300 025 2777**
**E-bost:** **rpt@llyw.cymru**